

YMARFERYDD DYSGU SEILIEDIG AR WAITH CANLLAWIAU YMGEISWYR



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r categori hwn yn rhoi cyfle i gyflogwyr dynnu sylw at ymroddiad a brwdfrydedd ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith wrth helpu dysgwyr.

Dylai'r ceisiadau fynd ati i ddangos sut mae'r ymarferydd yn:

- Ysgogi ac yn herio dysgwyr i gyrraedd eu llawn botensial.
- Dangos arbenigedd nodedig mewn addysgu a dysgu ac yn y maes y mae'n gweithio ynddo, gyda dealltwriaeth drwyadl o anghenion cyflogwyr.
- Diweddarau ei sgiliau a'i (h)arbenigedd yn barhaus gydag ymroddiad clir i'w (d)atblygiad personol ei hunan a datblygiad y sefydliad.
- Rhannu gwybodaeth ac arbenigedd gyda chydweithwyr er mwyn helpu i wella ansawdd a pherthnasedd cyffredinol dysgu seiliedig ar waith a'r ffordd y caiff ei gyflenwi.
- Rhagori ar ofynion y rhaglenni, y cymwysterau a'r fframweithiau y mae'n eu cyflenwi, trwy ddefnyddio dulliau pwrpasol neu arloesol i gyflenwi dysgu, yn cynnwys dulliau digidol.

Er mwyn ymgeisio am y wobwr hon, mae'n rhaid i'r sawl a enwebwch:

Fod yn diwtor mewn canolfan neu'n asesydd yn y gweithle, a gyflogir gan Ddarparwr Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) (yn cynnwys 'Partner Cyflenwi') sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi un neu fwy o'u rhaglenni cyflogadwyedd a/neu Brentisiaethau yng Nghymru.

Adran 1: Manylion yr ymarferydd – i'w llenwi gan y darparwr dysgu sy'n enwebu.

Adran 2: Manylion y darparwr – i'w llenwi gan y darparwr dysgu sy'n enwebu.

Adran 3: Manylion yr ymarferydd – i'w llenwi gan y darparwr dysgu sy'n enwebu.

C1. Rhowch ddisgrifiad byr o waith a phrofiad yr ymarferydd (hyd at 250 gair)

Gallech ystyried cynnwys:

- Crynodeb o'i rôl presennol.
- Ers faint o amser y mae'n gweithio yn ei swydd bresennol.
- Profiad blaenorol yr ymarferydd o ddysgu pobl.
- Crynodeb o gymwysterau'r ymarferydd.
- Meysydd arbenigedd – galwedigaethol neu ddysgu.

Adran 4: Dull gweithredu'r ymarferydd – i'w llenwi gan y darparwr dysgu sy'n enwebu.

C2. Esboniwch sut y mae'n mynd ati i gyflenwi dysgu (hyd at 600 gair)

Dylech gynnwys manylion i ddweud sut y mae wedi:

- Canfod anghenion dysgu unigolion, diwallu'r anghenion hynny a chyfrannu at lwyddiant dysgwyr.
- Helpu dysgwyr i gyrraedd eu nodau personol a diwallu eu hanghenion personol.
- Addasu'r dull o ddysgu a'r fethodoleg er mwyn ateb gofynion y dysgwyr.
- Dangos ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Wrth ystyried eich tystiolaeth, gofynnir i chi ganolbwyntio ar dystiolaeth fod yr ymarferydd wedi rhagori ar ofynion y contract e.e. astudiaeth achos unigol.

C3. Sut mae'n dangos ymrwymiad i'w (d)datblygiad proffesiynol parhaus? (hyd at 400 gair)

Dylech gynnwys manylion i ddweud sut y mae wedi:

- Pennu a diwallu ei (h)anghenion datblygu personol ei hunan.
- Newid/gwella'r dull o ddysgu yn cynnwys gwneud defnydd priodol o dechnolegau dysgu e.e. defnyddio'r cyfryngau digidol a dysgu trwy ddulliau digidol.
- Diweddarau ei (g)wybodaeth a defnyddio arferion gorau yn ei maes/meysydd arbenigol.

Wrth gyflwyno'ch tystiolaeth, gofynnir i chi amlinellu sut y mae'r Safonau Proffesiynol wedi dylanwadu ar yr hyn y mae wedi'i ddysgu'n broffesiynol.

C4. Sut mae wedi cyfrannu at welliannau yn eich sefydliad chi ac yn y sector dysgu seiliedig ar waith yn ehangach? (hyd at 400 gair)

Dylech gynnwys manylion i ddweud sut y mae wedi:

- Cydweithio ag eraill yn fewnol ac yn allanol i rannu syniadau, adnoddau ac arferion da, er enghraifft trwy adolygu gwaith cymheiriaid (peer review), diwrnodau hyfforddiant a chyfarfodydd tîm.
- Dangos sut yr arweiniodd y gweithgareddau hyn at welliannau i ddysgwyr ac i'ch sefydliad chi.
- Cyfrannu at yr hyn mae'ch sefydliad wedi'i gyflawni ac at ei lwyddiant.

C5 Pam y dylid ystyried yr unigolyn hwn ar gyfer Gwobr Ymarferydd y Flwyddyn Dysgu Seiliedig ar Waith? (hyd at 250 gair)

Dylech ystyried:

- Gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n dangos llwyddiant yr ymarferydd hyd yma.
- Ffyrdd y caiff yr ymarferydd ei (h)ystyried yn batrwm i eraill.
- Beth sy'n ei (g)wneud yn ymgeisydd arbennig?

Adran 5: geirda – i'w llenwi gan randdeilad sy'n cefnogi'r cais hwn.

C6 Geirda (hyd at 400 gair)

Mae arnom eisiau gwybod sut mae'r ymarferwr hwn yn sefyll allan ymhlith eraill. Beth sy'n ei (g)wneud yn arbennig?

Dylech gynnwys:

- Tystiolaeth o'r hyn y mae'r ymarferydd wedi'i gyflawni sy'n arwydd o brofiad ac arbenigedd.
- Sut y mae wedi ysgogi dysgwyr a/neu gydweithwyr.

Adran 6: datganiad yr Ymarferydd Dysgu Seiliedig ar Waith a enwebwyd – i'w llenwi gan yr Ymarferydd Dysgu Seiliedig ar Waith

C7 Datganiad

Mae'r ymarferydd a enwir yn y cais hwn yn dymuno cael ei ystyried ar gyfer Gwobr Ymarferydd y Flwyddyn Dysgu Seiliedig ar Waith, ac mae'n cadarnhau bod y manylion a roddir yn y cais yn gywir.

Wrth wneud cais am Wobr Ymarferydd y Flwyddyn Dysgu Seiliedig ar Waith, rwy'n cytuno i gymryd rhan mewn unrhyw gyhoeddusrwydd ynghylch Gwobrau Prentisiaethau Cymru yn cynnwys tynnu lluniau, ffilmio a datblygu astudiaethau achos ymhlith pethau eraill. Rwy'n deall y bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu rhyddhau cyn y digwyddiad, yn ystod y digwyddiad ac wedyn fel rhan o waith cyhoeddusrwydd Gwobrau Prentisiaethau Cymru. Yn ogystal, os caf fy newis i gyrraedd y Rhestr Fer ac na fyddaf yn gallu mynd i'r Seremoni Wobrwyo am ryw reswm, byddaf yn sicrhau bod rhywun yn mynd ar fy rhan.

Rwy'n cytuno â'r datganiad.

☐ Ydw

☐ Na

Preifatrwydd

Caiff pob ymgais ei thrin yn hollol gyfrinachol. Dim ond er mwyn hyrwyddo Rhaglen Brentisiaethau Llywodraeth Cymru a'u Rhaglenni Sgiliau a Chyflogadwyedd ehangach y bydd Llywodraeth Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) yn defnyddio'r wybodaeth a roddir. Nid ydym yn gallu anfon y ceisiadau na'r wybodaeth ategol yn ôl.